

Adolygiad o Ymgysylltu â'r Cyhoedd – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 2900A2022

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gwreiddio'r 10 Egwyddor Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, ond byddai cryfhau'r modd y mae'n cydlynu ac yn gwerthuso'i weithgarwch cynnwys yn dwyn budd pellach 8

Strategaeth 8

Egwyddor 1 – Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth 9

Egwyddor 2 – Annog a galluogi pawb yr effeithir arnynt i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny 10

Egwyddor 3 – Cynllunnir a chyflawnir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol 11

Egwyddor 4 – Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol 12

Egwyddor 5 – Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall 13

Egwyddor 6 – Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan 14

Egwyddor 7 – Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol 15

Egwyddor 8 – Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol 15

Egwyddor 9 – Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad 17

Egwyddor 10 – Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu 18

Adroddiad cryno

Crynodeb

Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

- 1 Fe wnaethom adolygu trefniadau Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (y Cyngor) ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a chynnwys y cyhoedd wrth drefnu'r modd y darperir gwasanaethau. Fe wnaethom fwrw golwg ar y modd y mae'r Cyngor yn mynd ati'n strategol i gynllunio gweithgarwch ymgysylltu, sut y mae'n cyflawni gweithgarwch ymgysylltu, a sut y mae'n monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd ei drefniadau.
- 2 Yn 2012, fe gyhoeddodd Archwilio Cymru'r adroddiad Ymgysylltu â'r Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol. Daeth yr adroddiad hwn i'r casgliad bod 'cynghorau yng Nghymru yn ymgymryd â chryn dipyn o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd a bod rhywfaint o'r gweithgarwch hwnnw yn galluogi dinasyddion i helpu i lywio gwasanaethau. Yn aml nid oes cyfeiriad strategol i weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd ac nid yw wedi'i gydgyssylltu; anaml y rhoddir adborth i'r cyhoedd ac mae gweithgarwch monitro a gwerthuso effeithiolrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd yn wan'. Daeth yr adroddiad i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:
 - mae cynghorau yn ymgymryd â chryn dipyn o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, y mae rhywfaint ohono yn galluogi dinasyddion i helpu i lywio gwasanaethau lleol;
 - nid yw'r rhan fwyaf o gynghorau wedi ymgorffori a phrif ffrydio gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn llawn eto yn eu diwylliant sefydliadol na'u gweithgareddau partneriaeth; ac
 - anaml y mae cynghorau yn rhoi adborth ar y gwahaniaeth y mae ymgysylltu â'r cyhoedd wedi'i wneud, ac mae gwaith monitro a gwerthuso yn wan.
- 3 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlygu pwysigrwydd cynnwys pobl â buddiant mewn cyrraedd nodau llesiant y Cyngor a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. Wrth ystyried newidiadau i bolisiau a gwasanaethau, mae disgwyl i gynghorau allu dangos sut y maent wedi ceisio barn pobl yr effeithir arnynt gan y newid ac wedi rhoi sylw i'r farn hon wrth gynllunio a chyflawni'r newid.
- 4 Mae Cynllun y Cyngor 2020-23 yn egluro ymrwymiad y Cyngor i ymgysylltu â phobl leol. Yn benodol, mae'n cyfeirio at fod eisiau:
 - deall yn well ble mae cymunedau pobl o'r Undeb Ewropeaidd a Phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn byw er mwyn eu cefnogi ac ymgysylltu â nhw;
 - datblygu strategaeth TGCh a Digidol newydd a fydd yn galluogi'r Cyngor i foderneiddio'r ffordd y mae'n gweithio ac yn ymgysylltu â'i gwsmeriaid;
 - galluogi gwasanaethau i ymgysylltu â grwpiau ac unigolion â nodweddion gwarchoddedig i'w helpu i ddarparu gwasanaethau sy'n ystyried cydraddoldeb;

- sicrhau bod aelwydydd yn ymgysylltu â'i nodau ailgylchu a lleihau gwastraff i sicrhau ei fod ar y trywydd iawn i gyrraedd ei dargedau ailgylchu statudol erbyn 2025; a
 - chynyddu nifer y gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu a gynhelir drwy lwyfan digidol Eich Llais Wrecsam.
- 5 Fe wnaeth y Cyngor fabwysiadu ei Strategaeth Cynnwys 2018-22 yn ffurfiol ym mis Mehefin 2018. Y weledigaeth a nodwyd yn y strategaeth hon oedd, 'Mae gan bawb fynediad at yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen i ddylanwadu ar y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau. Rydym yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â phawb ar bob penderfyniad sy'n effeithio arnyn nhw a, lle bo'n bosib, rydym yn cydweithio i gynllunio a darparu gwasanaethau'. Mae'r Strategaeth Cynnwys 2018-22 yn nodi tri phrif faes gwaith dan gysyniad cyffredinol cynnwys:
- Ymgynghori – ymarfer i gasglu barn pobl ynglŷn â chynigion penodol i helpu i wneud penderfyniad;
 - Ymgysylltu – sgwrs barhaus lle mae'r Cyngor yn gwrandao ar yr hyn y mae ar bobl eisiau ei ddweud wrtho, ac yn ceisio deall eu barn ynglŷn ag ystod o syniadau; a
 - Chydgyhyrchu – gweithio gyda phobl a chymunedau mewn partneriaeth gyfartal i ddatblygu a darparu gwasanaethau sy'n bwysig, gyda'n gilydd.
- 6 Caiff y pwys y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi ar gyfranogiad y cyhoedd ei gryfhau gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau:
- hybu ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol o swyddogaethau'r Cyngor;
 - hybu ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol sut i ddod yn aelod o'r Cyngor a'r hyn y mae aelodaeth yn ei olygu;
 - hwyluso mynediad ar gyfer pobl leol at wybodaeth am benderfyniadau a wneir, neu a fydd yn cael eu gwneud, gan y Cyngor;
 - hyrwyddo a hwyluso prosesau y gall pobl leol eu defnyddio i gyflwyno sylwadau i'r Cyngor am benderfyniad cyn, ac ar ôl, iddo gael ei wneud;
 - trefnu i farn y cyhoedd gael ei dwyn i sylw'r pwyllgorau trosolwg a chraffu; a
 - hybu ymwybyddiaeth ymhlith aelodau'r Cyngor o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu gyda phobl leol.
- 7 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng mis Ionawr 2022 a mis Mawrth 2022.

Yr hyn a ganfuom

- 8 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw ymgysylltu â'r cyhoedd yn galluogi dinasyddion i helpu i lywio'r hyn y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn ei wneud?
- 9 Ar y cyfan, canfuom fel a ganlyn: Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gwreiddio'r 10 Egwyddor Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, ond

byddai cryfhau'r modd y mae'n cydlynu ac yn gwerthuso'i weithgarwch cynnwys yn dwyn budd pellach. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Strategaeth – mae gan y Cyngor Strategaeth Cynnwys lefel-uchel, eglur sy'n pwysleisio pwysigrwydd cydweithio gyda thrigolion trwy ymgynghori, ymgysylltu, a chydgynhyrchu;
- Egwyddor 1 – mae cynnwys wedi'i wreiddio yn niwylliant y Cyngor ac mae newid amlwg tuag at ymgynghori, ymgysylltu, a chydgynhyrchu;
- Egwyddor 2 – er bod y Cyngor yn hybu ymgynghori, ymgysylltu a chydgynhyrchu, cafwyd cyfraddau ymateb isel wrth gynnal nifer o weithgareddau;
- Egwyddor 3 – mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i reoli a chydlynu ei weithgareddau cynnwys yn fwy;
- Egwyddor 4 – mae'r Cyngor yn gweithio gydag ystod o bartneriaid, ond mae angen iddo wneud gwaith pellach i sicrhau bod gweithgarwch cynnwys yn cael ei gydlynu;
- Egwyddor 5 – mae'r rhan fwyaf o weithgarwch cynnwys y Cyngor yn hawdd i'w ddeall; fodd bynnag mae nifer fach iawn o weithgareddau'n defnyddio iaith ddryslud;
- Egwyddor 6 – yr offeryn Eich Llais Wrecsam yw'r brif ffordd y mae'r Cyngor yn cynnwys ei drigolion ac er ei fod yn effeithiol, mae cyfleoedd gan y Cyngor i ymgysylltu'n ehangach;
- Egwyddor 7 – mae gan y Cyngor ymrwymiad amlwg i gynnwys trigolion ac mae'n gyson yn chwilio am ffyrdd i wneud i hyn ddigwydd;
- Egwyddor 8 – mae hyfforddiant effeithiol i'w gael ar adnodd ymgysylltu ar-lein Eich Llais Wrecsam, ond gallai'r Cyngor ddatblygu cyfleoedd hyfforddi ymhellach;
- Egwyddor 9 – mae'r Cyngor yn defnyddio'r adroddiadau Dwedoch Chi, Gwnaethom Ni i ddarparu adborth yn effeithiol, ac mae wedi gweithredu i gryfhau trefniadau adborth; ac
- Egwyddor 10 – mae gan y Cyngor gyfleoedd i wella meincnodi, y modd y rhennir arfer da, a'r modd y cydlynir canfyddiadau gweithgarwch cynnwys.

Argymhellion

Arddangosyn 1: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

Argymhellion

Datblygu'r modd y cydlynir gweithgareddau cynnwys yn ganolog

A1 Dylai'r Cyngor ddatblygu mecanwaith i gydlynu gweithgarwch cynnwys yn ganolog (gan gynnwys gweithgarwch y BGC) i leihau risgiau dyblygu gwaith ac achosi syrffed ar ymgysylltu.

Datblygu'r mecanweithiau i werthuso gweithgarwch cynnwys

A2 Dylai'r Cyngor ddatblygu nifer o arferion i sicrhau ei fod yn cynyddu i'r eithaf y gwaith i werthuso'i weithgarwch cynnwys a gwblhawyd:

- mecanwaith ffurfiol i gasglu a rhannu arfer da
- mecanwaith ffurfiol i feincnodi gweithgarwch gyda sefydliadau eraill
- proses i goladu a monitro gwerthusiadau swyddogion a gwblhawyd ar ôl gweithgarwch
- ffordd o ddadansoddi cost-effeithiolrwydd pob gweithgaredd cynnwys
- dull ar gyfer casglu adborth gan gyfranogwyr ar wella gweithgarwch cynnwys

Datblygu'r modd y cydlynir canfyddiadau gweithgareddau cynnwys

A3 Dylai'r Cyngor ddatblygu dull ar gyfer cydlynu canfyddiadau ac arfer da o'r ystod o weithgareddau cynnwys y mae'n eu cynnal i gynyddu i'r eithaf y gwersi a ddysgir a lleihau achosion o ddyblygu gwaith.

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gwreiddio'r 10 Egwyddor Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, ond byddai cryfhau'r modd y mae'n cydlynu ac yn gwerthuso'i weithgarwch cynnwys yn dwyn budd pellach

- 10 Rydym wedi strwythuro'r adroddiad hwn gan ddefnyddio'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru¹. Datblygwyd yr egwyddorion hyn gan Cyfranogaeth Cymru ac maent wedi cael eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Ceir paragraff ar gyfer pob egwyddor ac un ar gyfer strategaeth. O dan bob egwyddor rydym wedi disgrifio'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella a ganfuom.

Strategaeth

Mae gan y Cyngor Strategaeth Cynnwys lefel-uchel, eglur sy'n pwysleisio pwysigrwydd cydweithio gyda thrigolion trwy ymgynghori, ymgysylltu, a chydgyhyrchu

- 11 Canfuom y cryfderau canlynol:
- mae gan y Cyngor Strategaeth Cynnwys lefel-uchel 2018-22. Mae'r Strategaeth hon yn pwysleisio'n glir y pwys y mae'r Cyngor yn ei roi ar gynnwys trigolion a chydweithio gyda hwy.
 - caiff y Strategaeth Cynnwys ei disgrifio gan y Cyngor fel strategaeth drosfwaol neu 'ymbarél' ar gyfer nifer o strategaethau ymgysylltu/cyfranogi eraill sy'n bodoli mewn amryw wasanaethau:
 - y Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid a Lesddeiliaid Tai;
 - y fersiwn ddrafft o Strategaeth Cyfranogiad Hawliau Plant Wrecsam 2022-25 (a fydd yn disodli Strategaeth Ymgysylltu'r Adran Gofal Cymdeithasol Plant 2015-18 a Strategaeth Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Wrecsam 2017-20); a hefyd
 - y fersiwn ddrafft o Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd.
 - mae'r Strategaeth Cynnwys 2018-22 yn cynnwys gweledigaeth eglur, syml, 'Mae gan bawb fynediad at yr wybodaeth y mae arnynt ei hangen i ddylanwadu ar y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau. Rydym yn ymgysylltu ac yn ymgynghori â phawb ar bob penderfyniad sy'n effeithio

¹ <https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/11/National-Principles-for-Public-Engagement-Egwyddorion-Cenedlaethol-ar-gyfer-Ymgysylltu-ar-Cyhoedd.pdf>

arnyn nhw a, lle bo'n bosib, rydym yn cydweithio i gynllunio a darparu gwasanaethau'.

- islaw'r weledigaeth, mae'r Strategaeth Cynnwys 2018-22 yn rhoi diffiniad clir o dri maes gweithgarwch y mae'r Cyngor yn eu defnyddio i gynnwys pobl – ymgynghori, ymgysylltu a chydgyhyrchu. Mae'r Strategaeth yn egluro'r nodau ar gyfer pob un ac yn disgrifio sut y bydd llwyddiant yn edrych.
- mae'r Cyngor yn bwriadu diweddarau'r Strategaeth yn ddiweddarach eleni gan ddefnyddio Cynllun Gweithredu ei Strategaeth Cynnwys sy'n nodi'r gwaith a fydd yn cael ei wneud.

12 Canfuom y cyfle canlynol i wella:

- nid yw pob 'is-strategaeth' yn cyfeirio'n benodol at y strategaeth ar y cyfan, ac mae cyfle i gryfhau'r modd y caiff y dulliau hyn eu hintegreiddio, neu hyd yn oed newid i un strategaeth gyfan ar gyfer y Cyngor.

Egwyddor 1 – Cynllunnir yr ymgysylltu'n effeithiol i wneud gwahaniaeth

Mae cynnwys wedi'i wreiddio yn niwylliant y Cyngor ac mae newid amlwg tuag at ymgynghori, ymgysylltu, a chydgyhyrchu

13 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae cynnwys wedi'i wreiddio yn niwylliant y Cyngor – mae'r testun yn amlwg yn cael ei werthfawrogi yn y Cyngor, a cheir arweinyddiaeth o haen uchaf y sefydliad.
- mae'r Cyngor yn cyflawni peth wmbredd o weithgarwch cynnwys, gyda nifer y digwyddiadau a'r ymatebion a gafwyd yn cynyddu ers 2015.
- mae swyddogion yn y Cyngor yn amlwg yn deall pwysigrwydd gweithgarwch cynnwys a'r manteision a ddaw yn sgîl hynny. Roeddent yn gallu darparu enghreifftiau eglur o'r tri maes a nodwyd yn y Strategaeth Cynnwys 2018-22.
- disgrifiodd swyddogion ddealltwriaeth ac iddi ddau gam am y modd y mae cynnwys yn gwneud gwahaniaeth:
 - datblygu dogfennau strategol a chynigion gwell, a hynny'n arwain at symud yn fwy esmwyth drwy'r broses gymeradwyo; a
 - gwella gwasanaethau lle maent yn gweithio'n well, yn cyflawni deilliannau gwell, a/neu'n arwain at lefelau uwch o fodlonrwydd ymhlith cwsmeriaid.
- mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n rhoi mwy o bwys ar gyfranogiad y cyhoedd. Mae'r Cyngor wedi drafftio Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd i egluro sut y bydd yn cydymffurfio â gofynion y Ddeddf. Mae

Gwasanaeth Llywodraethu a Chwsmeriaid y Cyngor yn arwain ar y gwaith hwn.

- mae'r Cyngor yn cynhyrchu adroddiadau 'Dwedoch chi, Gwnaethom Ni' yn dilyn ymgynghoriadau. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys adran sy'n dwyn y teitl 'Pa wahaniaeth y mae wedi'i wneud?' a ysgrifennir ar ôl gwneud penderfyniad fel bod y Cyngor yn gallu gweld effaith lawn y gweithgarwch cynnwys. Mae'r adroddiadau'n cael eu storio ar adnodd ymgysylltu ar-lein Eich Llais Wrecsam lle maent ar gael yn gyhoeddus.
- fe arweiniodd ymgynghoriad y Cyngor ynghylch ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 at newid sylweddol rhwng yr amcanion drafft a therfynol.

14 Canfuom y cyfle canlynol i wella:

- nid yw'r Cyngor wedi cynllunio'r hyfforddiant ar gyfer swyddogion a chynghorwyr ar y gofynion o ran cyfranogiad y cyhoedd yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 eto. Dywedwyd wrthym fod y Cyngor yn disgwyl am ganllawiau gan Lywodraeth Cymru cyn ei fod yn bwrw ymlaen â'i gynlluniau.

Egwyddor 2 – Annog a galluogi pawb yr effeithir arnynt i gymryd rhan, os ydynt yn dewis hynny

Er bod y Cyngor yn hybu ymgynghori, ymgysylltu a chydgyhyrchu, cafwyd cyfraddau ymateb isel wrth gynnal nifer o weithgareddau

15 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor 2020-24 yn cynnwys amcan penodol sy'n ymwneud â chynnwys pawb, 'Cynnwys pawb a sicrhau ein bod yn defnyddio gwybodaeth am y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaeth (gan gynnwys y rhai â nodweddion gwarchoddedig) i wneud penderfyniadau da'.
- mae'r Cyngor wedi datblygu set o gwestiynau monitro cydraddoldeb safonedig sydd ar gael ar gyfer pob darn o weithgarwch cynnwys. Mae'r wybodaeth a geir o'r cwestiynau hyn yn galluogi'r Cyngor i fonitro pa un a yw ei weithgarwch cynnwys yn cyrraedd pob cynulleidfa. Fodd bynnag, nid yw'r cwestiynau'n orfodol, a gall rhai gwasanaethau eu haddasu i'r gweithgarwch ymgysylltu penodol, defnyddio is-set, neu ddewis peidio â'u defnyddio o gwbl.
- mae'r Cyngor yn defnyddio ystod o ddulliau i roi cyhoeddusrwydd i waith cynnwys a'i gwblhau. Er bod y pandemig wedi atal gweithgarwch ymgysylltu wyneb yn wyneb, fe gynhaliodd y Cyngor gyfarfodydd ar-lein a bu'n rhyngweithio gyda thudalennau cymunedol ar Facebook am y tro cyntaf.
- mae awydd cryf yn y Cyngor i ddatblygu cydgynhyrchu. Ceir pwyslais clir yn y Strategaeth Cynnwys 2018-22 ac roedd swyddogion yn gallu darparu

enghreifftiau. Mae hwn yn faes o fewn ei waith y mae'r Cyngor yn dymuno'i ehangu.

- mae Tîm Cydlyniant Cymunedol y Cyngor yn eistedd o fewn y Gwasanaeth Gwella Perfformiad a Phartneriaethau (PIPS). Mae gan y tîm hwn gysylltiadau cryf ag ystod o grwpiau anodd i'w cyrraedd a grwpiau sy'n cynrychioli pobl â nodweddion gwarchoddedig.
- fe wnaeth y Tîm Cydlyniant Cymunedol ddiweddarau eu cyfeiriadur o gysylltiadau ar gyfer grwpiau neu unigolion â nodweddion gwarchoddedig yn ystod y pandemig. Mae'r Tîm yn darparu'r cyfeiriadur hwn ar gyfer yr holl wasanaethau sy'n cwblhau gwaith cynnwys er mwyn iddynt allu estyn allan at y grwpiau hyn yn uniongyrchol.
- mae'r Cyngor yn ymgysylltu'n fynych â Senedd yr Ifanc i gasglu barn pobl ifanc yn Wrecsam.

16 Canfuom y cyfleoedd canlynol i wella:

- ymddengys fod nifer o weithgareddau cynnwys y Cyngor yn cael niferoedd isel o ymatebion. Mae angen i'r Cyngor nodi sut y mae llwyddiant yn edrych a datblygu ffyrdd eraill o gyrraedd ymatebwyr posibl lle y bo'n briodol. Er enghraifft, cafodd ymgynghoriadau ynghylch Asesiad Llesiant BGC Wrecsam (885 o ymatebion) a Thramiau Olaf Wrecsam (385) ill dau niferoedd uchel o ymatebion. Fodd bynnag, roedd nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau ar y fersiwn ddrafft o Gynllun y Cyngor 2020-23 (98) a Chynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai 2021-22 (185) yn sylweddol is.
- er bod y Cyngor wedi creu set o gwestiynau monitro cydraddoldeb safonedig, dylai sicrhau bod y cwestiynau'n cael eu defnyddio'n gyson i ddarparu set safonedig o wybodaeth. Byddai hyn yn galluogi'r Cyngor i'w sicrhau ei hun bod ei weithgarwch cynnwys yn cyrraedd pob cynulleidfa.

Egwyddor 3 – Cynllunnir a chyflawnir yr ymgysylltu mewn ffordd amserol a phriodol

Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i reoli a chydlynu ei weithgareddau cynnwys yn fwy

17 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae gan y Cyngor broses ac iddi ddwy haen ar gyfer rheoli ei weithgarwch cynnwys. Mae'r tîm PIPS yn arwain ar weithgarwch ar raddfa fawr (megis Cynllun y Cyngor a'r Gyllideb) gyda'r holl weithgarwch arall yn cael ei gyflawni gan y gwasanaethau unigol.
- mae Pecyn Cymorth Ymgynghori ac Ymgysylltu yn ei le, sy'n ategu'r dull ar y cyfan a nodwyd yn y Strategaeth Cynnwys 2018-22. Mae'r Pecyn Cymorth yn canolbwyntio ar ddau o'r tri math o weithgarwch cynnwys a nodwyd gan y Cyngor ac nid yw'n cynnwys cydgyhychu. Dywedodd y Cyngor wrthym ei

fod wrthi'n adolygu'r Pecyn Cymorth ar hyn o bryd, ac y bydd y fersiwn wedi'i diweddarau'n cynnwys adran ar Gydgyhyrchu.

- nod y pecyn cymorth yw sicrhau ansawdd a chysondeb ar draws gwasanaethau'r Cyngor yn yr holl waith ymgynghori ac ymgysylltu. Mae'n cyfeirio at Egwyddorion Gunning, y 10 Egwyddor Genedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, ac mae'n cynnig canllaw cam-wrthgam i gwblhau gwaith ymgynghori ac ymgysylltu.
- ceir tudalen wedi'i neilltuo ar fewnrwyd y Cyngor sy'n cynnwys y Strategaeth Cynnwys 2018-22, y Pecyn Cymorth Ymgynghori ac Ymgysylltu, a chysylltiadau ag adnodd ymgysylltu ar-lein Eich Llais Wrecsam.

18 Canfuom y cyfleoedd canlynol i wella:

- er bod y tîm PIPS yn gyfrifol am weithgarwch ymgynghori ac ymgysylltu ar raddfa fawr, ac er bod y Pecyn Cymorth Ymgynghori ac Ymgysylltu'n cyfeirio'r darlennydd at PIPS os oes ganddynt unrhyw ymholiadau, mae union rôl y tîm PIPS yn aneglur i'r gwasanaethau ehangach. Dywedwyd wrthym nad oes tîm cynnwys/ymgysylltu penodol o fewn y Cyngor. Dywedodd swyddogion wrthym eu bod yn teimlo bod rhaid iddynt gwblhau gweithgarwch cynnwys ar eu pennau eu hunain ac y byddent yn hoffi cael eglurder ynghylch y cymorth sydd ar gael.
- gan bod pob gwasanaeth yn gyfrifol am ei weithgarwch cynnwys ei hun, ceir diffyg cydlynu canolog a all arwain at ddyblygu gwaith ac a all achosi 'syrffed ar gynnwys' o bosibl ymhlith cyfranogwyr. Mae hyn yn achosi risg benodol i'r grwpiau hynny y gallai'r Cyngor gysylltu â hwy sawl gwaith ar amryw ddarnau o waith. Mae'r Cyngor wedi nodi'r maes gwella hwn ac mae'n nodi ei fod yn dymuno cynhyrchu calendr canolog o weithgarwch i wella trefniadau amserlennu a lleihau'r risg o ddyblygu.

Egwyddor 4 – Gweithio gyda sefydliadau partner perthnasol

Mae'r Cyngor yn gweithio gydag ystod o bartneriaid, ond mae angen iddo wneud gwaith pellach i sicrhau bod gweithgarwch cynnwys yn cael ei gydlynu

19 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor wedi nodi cydgynhyrchu fel un o'i dair thema yn ei Strategaeth Cynnwys 2018-22. Mae'r diffiniad o gydgynhyrchu yn y strategaeth honno'n canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth i ddatblygu a darparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn gweithio gyda dinasyddion, gofawyr, y pum Cyngor arall ledled gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ac ystod o sefydliadau yn y trydydd sector i gyd-ddatblygu modelau integredig ar gyfer gwasanaethau anabledau dysgu. Nod y gwaith hwn yw

creu un dull, strwythur a phroses integredig i ddarparu gwasanaeth di-dor ar gyfer pobl ag anableddau dysgu ledled gogledd Cymru.

- fe arweiniodd y Cyngor ar y gwaith ymgynghori yn 2021 ar gyfer Asesiad Llesiant y BGC ar draws ôl troed daearyddol mawr. Cafwyd dros 800 o ymatebion i'r gwaith hwn.
- mae'r Cyngor wedi bod yn ymgysylltu â Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru i weithio ar sail ranbarthol am y pum mlynedd nesaf ar broses Asesiad Llesiant y BGC. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn rhoi cymorth i'r Cyngor ac yn gweithredu fel cyfaill beirniadol ar gyfer gwaith cydgynhyrchu yn y dyfodol.
- mae gan y Cyngor uchelgeisiau i greu grŵp ymgysylltu rhanbarthol parhaus ac mae'n gweithio gyda Grŵp Swyddogion y BGC a Phartneriaeth Ymchwil a Mewnwelediad Gogledd Cymru (NWRIP).
- mae'r Cyngor yn gweithio gyda Senedd yr Ifanc ar nifer o weithgareddau cynnwys.
- yn ystod pandemig Covid, fe wnaeth y Cyngor gynnwys y Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol yn Wrecsam (AVOW) fel rhan o'i dîm ymateb i argyfwng. Mae hyn wedi cryfhau perthynas weithio'r Cyngor ag AVOW, sy'n bartner allweddol o ran cyrraedd y bobl agored i niwed yn y gymuned.

20 Canfuom y cyfle canlynol i wella:

- yn y dyfodol, wrth gynllunio'r modd y mae'n cydlynu gweithgarwch cynnwys mewnol ar draws gwasanaethau, dylai'r Cyngor gynnwys y gweithgarwch y mae'n ei gwblhau gyda'r BGC. Bydd hyn yn osgoi dyblygu gwaith a 'syrffed' pellach ar gynnwys.

Egwyddor 5 – Ni fydd unrhyw jargon yn rhan o'r wybodaeth a ddarperir a bydd yn briodol ac yn hawdd i'w deall

Mae'r rhan fwyaf o weithgarwch cynnwys y Cyngor yn hawdd i'w ddeall; fodd bynnag mae nifer fach iawn o weithgareddau'n defnyddio iaith ddryslud.

21 Canfuom y cryfderau canlynol:

- prif ddull y Cyngor ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yw trwy arolygon ar-lein trwy adnodd ymgysylltu ar-lein Eich Llais Wrecsam. Mae'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r arolygon trwy amryw ddulliau ac yn ategu'r ymgysylltu â chyfarfodydd rhithwir a gweithdai i gynghorwyr.
- er bod y rhan fwyaf o ymgynghoriadau'n cael eu cwblhau trwy adnodd ymgysylltu ar-lein Eich Llais Wrecsam, mae'r Cyngor hefyd yn anfon deunyddiau ar ffurf copi caled at y rhai sy'n gofyn amdanynt.
- mae'r Cyngor yn cynhyrchu fersiynau 'hawdd i'w darllen' o bolisiau a dogfennau ymgynghori i ategu gweithgarwch cynnwys.

22 Canfuom y cyfle canlynol i wella:

- mae'r iaith a ddefnyddir ar nifer fach iawn o weithgareddau cynnwys yn ddryslyd ac anghyflawn. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod yr holl weithgarwch yn agored ac yn cael eu ategu gan adborth tryloyw. Er enghraifft, yr ymgynghoriad ynghylch Cynllun Datblygu Lleol Wreccsam trwy adnodd ymgysylltu ar-lein Eich Llais Wreccsam yn ystod mis Chwefror 2021:
 - 'Beth mae arnom eisiau ei wybod? Bydd Ymgynghoriad ynghylch y Newidiadau sy'n Codi i'r Atodlen Materion (KPD26), SA (KPD27), HRA (KPD28 a KPD28a) a'r Strategaeth Lleihau Ffosffadau (EBNB04) yn cael ei gynnal am gyfnod o 6 wythnos rhwng xxxxxx'.

Egwyddor 6 – Ei gwneud yn haws i bobl gymryd rhan

Yr offeryn Eich Llais Wreccsam yw'r brif ffordd y mae'r Cyngor yn cynnwys ei drigolion ac er ei fod yn effeithiol, mae cyfleoedd gan y Cyngor i ymgysylltu'n ehangach

23 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae adnodd ymgysylltu ar-lein Eich Llais Wreccsam yn offeryn digidol effeithiol sy'n galluogi ystod eang o bobl i gymryd rhan mewn gweithgarwch cynnwys. Caiff yr adroddiadau Dwedoch Chi, Gwnaethom Ni eu storio o fewn Eich Llais Wreccsam ac maent yn hygyrch iawn.
- mae adnodd ymgysylltu ar-lein Eich Llais Wreccsam yn annog y bobl hynny sy'n cwblhau ymgynghoriad i gofrestru ar gyfer llwyfan 'Fy Nghyfrif' digidol y Cyngor ar Wrexham.gov.uk. Mae 'Fy Nghyfrif' yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i reoli nifer o wasanaethau digidol ac mae'n galluogi'r defnyddiwr i ddynodi dewis i gael gwybodaeth am weithgareddau ymgysylltu cyfredol ac yn y dyfodol. Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn datblygu mecanwaith lle bydd yn anfon negeseuon e-bost rheolaidd at ddefnyddwyr 'Fy Nghyfrif' sydd wedi nodi'r dewis i gael eu hysbysu ynghylch ymgynghoriadau cyfredol ac yn y dyfodol.
- yn sgîl pandemig Covid gwelwyd newid cyflym tuag at wasanaethau digidol, a allai arwain at allgau digidol i rai trigolion. Mae'r Cyngor wedi cydnabod hyn ac wedi creu'r Grŵp Cynhwysiant Digidol i helpu'r rhai sydd dan anfantais yn ddigidol trwy ddarparu hyfforddiant ac adnoddau, a sicrhau bod sianeli nad ydynt yn rhai digidol yn dal i fod ar gael.

24 Canfuom y cyfle canlynol i wella:

- roedd aelodau Senedd yr Ifanc yn credu mai dim ond ar y testunau yr oedd yn eu hystyried yn 'faterion pobl ifanc' yr oedd y Cyngor yn ymgysylltu â hwy ac roeddent yn teimlo y gallent hefyd gynnig eu barn ynglŷn ag ystod ehangach o faterion, megis tai, gofal cymdeithasol, a Chynllun Datgarboneiddio'r Cyngor.

Egwyddor 7 – Galluogi pobl i gymryd rhan yn effeithiol

Mae gan y Cyngor ymrwymiad amlwg i gynnwys trigolion ac mae'n gyson yn chwilio am ffordd i wneud i hyn ddigwydd

25 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn defnyddio ystod o ddulliau i gynnwys trigolion yn effeithiol, megis arolygon ar-lein, gwefannau, grwpiau ffocws, gweithdai (wyneb yn wyneb a rhithwir), cyflwyniadau, dogfennau ymgynghori, llythyrau, modelau dylunio, a fideos.
- fel rhan o'r cynnig Dinas Diwylliant, mae'r Cyngor wedi rhoi cynnig ar ffordd arloesol o gynnwys y gymuned leol. Mae'r Cyngor wedi darparu grantiau ar raddfa fach (llai na £1,000) i bobl greu ceisiadau diwylliannol a helpu i lunio'r cynnig. Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gefnogi hefyd gan weithgor trawsbleidiol o gynghorwyr sydd wedi cael ei greu.
- mae'r swyddogion y siaradom ni gyda hwy'n pwysleisio pwysigrwydd egluro wrth y rhai a gymerodd ran yn y gweithgarwch cynnwys pam na chafodd pob barn ei rhoi ar waith. Roedd dealltwriaeth glir, er ei bod yn bwysig egluro pam fod pethau'n digwydd, ei bod yn bwysig hefyd dweud pam nad oedd rhai pethau penodol yn digwydd.
- yn ystod pandemig Covid, bu'r Tîm Cyfathrebu'n ymgysylltu â thudalennau Facebook cymunedol am y tro cyntaf.
- dywedodd y tîm PIPS wrthym am gynlluniau i gyflwyno hyrwyddwyr ymgysylltu yn y gwasanaethau wrth iddynt gyflwyno'r fersiwn wedi'i diweddarau o'r Strategaeth Cynnwys 2018-22 yn ddiweddarach yn 2022.

Egwyddor 8 – Rhoddir yr adnoddau a'r gefnogaeth briodol i ymgysylltu er mwyn iddo fod yn effeithiol

Mae hyfforddiant effeithiol i'w gael ar adnodd ymgysylltu ar-lein Eich Llais Wrecsam, ond gallai'r Cyngor ddatblygu cyfleoedd hyfforddi ymhellach

26 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant manwl ar sut i ddefnyddio adnodd ymgysylltu ar-lein Eich Llais Wrecsam. Arferai'r hyfforddiant hwn gael ei ddarparu trwy weithdai wyneb yn wyneb ond yn ystod pandemig Covid fe wnaeth y Cyngor addasu'r hyfforddiant hwn i gael ei redeg yn rhithwir.
- mae'r tîm PIPS wrthi ar hyn o bryd yn datblygu modiwl e-ddysgu ar ymgysylltu ac ymgynghori, i ategu'r Pecyn Cymorth presennol. Roedd y swyddogion y siaradom ni gyda hwy'n meddwl y byddai'r modiwl hwn yn eithriadol o ddefnyddiol.

- mae'r Cyngor wedi nodi'r angen i ddatblygu hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer cynghorwyr, fel rhan o'i ymateb i'r dyletswyddau o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Dywedodd y Cyngor wrthym y bydd hyfforddiant ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael ei ddarparu ar gyfer cynghorwyr yn dilyn etholiadau mis Mai 2022 fel rhan o'r broses sefydlu ar gyfer cynghorwyr ac aelodau lleyg.
- mae'r Pecyn Cymorth Ymgynghori ac Ymgysylltu'n cynnwys adran ar ddadansoddi canlyniadau gweithgarwch cynnwys. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd neilltuo digon o amser i'r broses dadansoddi a sicrhau bod y rhai sy'n cyflawni'r dadansoddiad yn meddu ar y sgiliau a'r profiad angenrheidiol.

27 Canfuom y cyfleoedd canlynol i wella:

- roedd y swyddogion y siaradom ni gyda hwy'n fodlon ar yr hyfforddiant technegol yr oeddent yn ei gael ar ddefnyddio offer cynnwys. Fodd bynnag, fe hoffent weld bod hyfforddiant ehangach ar gael ar destunau megis dadansoddi canlyniadau, darparu adborth effeithiol, a deall nod a diben cynnwys.
- mae'r adran ar ddadansoddi yn y Pecyn Cymorth yn fyr (dwyt dudalen). Dywedodd swyddogion wrthym yr hoffent ragor o ganllawiau yn y maes hwn. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn defnyddio papur academaidd² i roi canllawiau i ddefnyddwyr. Fel rhan o'r adolygiad o'r Pecyn Cymorth, dywedodd y Cyngor wrthym y bydd yn cynhyrchu fersiwn haws i'w defnyddio o'r egwyddorion sydd wedi'u cynnwys yn y papur academaidd, manwl.
- ni welsom unrhyw dystiolaeth o ddadansoddi costau ar gyfer gweithgarwch cynnwys a gwblhawyd.

² Braun, Virginia a Clarke, Victoria (2006) Using thematic analysis in psychology. *Qualitative Research in Psychology*, 3 (2). t. 77-101.

Egwyddor 9 – Mae pobl yn cael gwybod beth yw effaith eu cyfraniad

Mae'r Cyngor yn defnyddio'r adroddiadau Dwedoch Chi, Gwnaethom Ni i ddarparu adborth yn effeithiol, ac mae wedi gweithredu i gryfhau trefniadau adborth

28 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Strategaeth Cynnwys 2018-22, y Pecyn Cymorth Ymgynghori ac Ymgysylltu, a hyfforddiant a ddarparwyd ar gyfer adnodd ymgysylltu ar-lein Eich Llais Wrecsam ill tri'n pwysleisio pwysigrwydd darparu adborth.
- mae'r Pecyn Cymorth yn awgrymu pryd, sut ac i bwy y dylai swyddog roi adborth. Darperir templed adborth yn y Pecyn Cymorth sy'n cynnwys y diben, y dulliau, yr ymateb a'r canlyniadau.
- mae'r Adroddiadau Dwedoch Chi, Gwnaethom Ni yn darparu adborth diamwys trwy'r adrannau, 'Beth mae arnom ni eisiau ei wybod?', 'Beth Ganfuom Ni?' a 'Pa Wahaniaeth y Mae Wedi Ei Wneud?'. Mae'r adroddiadau hyn ar gael yn rhwydd ar-lein.
- mae adnodd ymgysylltu ar-lein Eich Llais Wrecsam yn cynnwys y cyfleuster i alluogi awdur yr arolwg i gynnwys cwestiwn ar y diwedd sy'n gofyn a hoffai'r ymatebydd gael adborth uniongyrchol.
- mae'r Cyngor yn annog ymatebwyr i ymgynghoriadau i gofrestru ar gyfer 'Fy Nghyfrif' ar Wrexham.gov.uk i gael gwybodaeth am weithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu cyfredol ac yn y dyfodol.

29 Canfuom y cyfleoedd canlynol i wella:

- wrth sefydlu prosiect ar adnodd ymgysylltu ar-lein Eich Llais Wrecsam, mae'r canllawiau'n annog yr awdur i gwblhau'r adran adborth. Fodd bynnag, mae'r adran hon yn ddewisol, a allai egluro pam nad yw rhai o'r adroddiadau'n cynnwys yr adrannau 'Beth ganfuom ni' a 'Pa wahaniaeth y mae wedi ei wneud' wedi'u cwblhau. Hefyd, mewn rhai adroddiadau, nid oes rhyw lawer o fanylion yn yr adran 'Pa wahaniaeth y mae wedi ei wneud?' sy'n ychwanegu gwerth cyfyngedig yn unig ar gyfer y darlennydd.
- mae'r Cyngor wedi adnabod yr angen i wella cydymffurfiaeth o ran darparu adborth gan ddefnyddio Eich Llais Wrecsam. Mae gwaith wedi dechrau i weithredu ar hyn trwy anfon negeseuon atgoffa awtomatig at arweinwyr ymgynghoriadau. Mae'r Cyngor hefyd yn chwilio am ffyrdd o greu adroddiadau awtomatig ar ddiffyg cydymffurfio o ran rhoi adborth. Mae gwella adborth wedi bod yn ffocws i Grŵp Swyddogion Llywodraethu'r Cyngor ar ôl monitro cynnwys Eich Llais Wrecsam.

Egwyddor 10 – Dysgu a rhannu gwersi i wella'r broses o ymgysylltu

Mae gan y Cyngor gyfleoedd i wella meincnodi, y modd y rhennir arfer da, a'r modd y cydlynir canfyddiadau gweithgarwch cynnwys

30 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Pecyn Cymorth Ymgynghori ac Ymgysylltu'n pwysleisio pwysigrwydd gwerthuso gweithgarwch i helpu i sicrhau ansawdd a chost-effeithiolrwydd gweithgareddau yn y dyfodol.
- mae'r Pecyn Cymorth yn nodi y dylai'r darlennydd werthuso'i weithgarwch yn erbyn yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Mae'n cynnwys dolen i becyn cymorth gwerthuso a letyir ar wefan Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).
- mae Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Cynnwys ar gyfer Ch2 2021-22 yn cynnwys camau gweithredu i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar arfer da drwyddi draw yn y Cyngor a darparu adroddiadau chwarterol ar weithgarwch cynnwys a themâu allweddol a nodwyd ar gyfer yr Uwch Dîm Arwain (UDA).
- mae'r Pennaeth PIPS yn eistedd ar yr UDA a gall gynghori, cyfeirio a chwestiynu uwch gydweithwyr ar weithgarwch cynnwys.
- mae gan y Cyngor nifer o fesurau perfformiad mewn perthynas â gweithgarwch cynnwys dan y flaenoriaeth 'Cyngor Modern a Chydnerth' yn y Cynllun Corfforaethol.

31 Canfuom y cyfleoedd canlynol i wella:

- dywedwyd wrthym am ffyrdd yr oedd arfer da'n cael ei rannu'n anffurfiol o fewn y Cyngor, ond ni chanfuom unrhyw fecanwaith ffurfiol. Nid yw'r camau gweithredu i rannu arfer da a chyflwyno adroddiad chwarterol i'r UDA wedi dechrau eto. Y rheswm dros hyn yw'r llwyth gwaith trymach o ran ymateb i bandemig COVID-19.
- dywedwyd wrthym am feincnodi gweithgarwch cynnwys yn anffurfiol gyda chynghorau eraill, ond ni chanfuom fecanwaith ffurfiol. Mae'r Cyngor yn ymgysylltu â phartneriaethau ledled Gogledd Cymru (er enghraifft, Partneriaeth Ymchwil a Mewnwelediad Gogledd Cymru). Dywedodd y Cyngor wrthym ei fod yn cael trafodaethau gyda phartneriaid am arfer da a lleihau achosion o ddyblygu gweithgarwch ymgysylltu.
- er bod y Pecyn Cymorth Ymgynghori ac Ymgysylltu'n cyfeirio darllenwyr at adnodd i werthuso gweithgarwch, nid yw'r gwerthusiadau'n cael eu coladu na'u cydlynu'n ganolog. Ni welsom unrhyw dystiolaeth i ddangos bod gweithgareddau cynnwys yn cael eu gwerthuso gan swyddogion. Ni welsom unrhyw dystiolaeth bod cyfranogwyr yn cael y cyfle i ddweud sut y gallai'r gweithgarwch fod wedi cael ei wella.

- mae'r Cyngor wedi nodi y gallai gryfhau trefniadau i gydlynu canfyddiadau ei amryw weithgareddau cynnwys.



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.